

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y cyfarfod:	10 Mehefin 2021
Aelod Arweiniol / Swyddog:	Huw Hilditch-Roberts (Aelod Arweiniol dros Addysg, Plant a Phobl Ifanc/Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant)
Awdur yr Adroddiad:	Arweinydd Craidd GwE/Geraint Davies (Pennaeth Addysg dros dro)
Teitl	Gweithredu Adroddiad Donaldson 'Dyfodol Llwyddiannus' - Cwricwlwm Cymru

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. I gyflwyno adroddiad ar sut y mae'r consortiwm rhanbarthol, mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol, yn cefnogi ysgolion gyda gweithredu'r Cwricwlwm Cymru Newydd ar ôl cyhoeddi Adroddiad Donaldson ' Dyfodol Llwyddiannus'

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I ddarparu sicrwydd fod pob ymdrech wedi'i wneud i gefnogi ysgolion wrth weithredu Cwricwlwm Newydd ac i roi'r cyfle i aelodau'r pwyllgor i ystyried a monitro'r cynllun i weithredu darganfyddiadau'r adolygiad.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Estynnwyd gwahoddiad i Aelodau Craffu i drafod manylion yr adroddiad hwn ac i nodi unrhyw agwedd o'r gwaith a fyddai'n elwa o archwiliad manwl yn y dyfodol.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Wrth gwrs mae'r ymateb i COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar ysgolion ac yn debygol o fod wedi amharu ar rai o'u cynlluniau i baratoi a gweithredu'r cwricwlwm newydd yn dilyn cyhoeddi adroddiad [Dyfodol Llwyddiannus](#) yn 2015.

4.2. Mae'r rhaglen diwygio addysg yng Nghymru wedi'i lunio ar y *Cwricwlwm Cymru* newydd sy'n darparu ffordd positif ymlaen wrth i ni ddod allan o gyfyngiadau'r flwyddyn ddiwethaf. Gweler **Atodiad 1** ar gyfer canllaw hawdd i'w ddarllen ar y newidiadau. Yn ganolog iddo mae nifer o syniadau arweiniol:

1. Y dylai'r cwricwlwm ac addysgu, dysgu ac asesiad cysylltiol ddeillio o bedwar diben amlwg wedi eu cytuno arnynt yn genedlaethol a'u gweithredu yn lleol.
2. Bod y dibenion hynny'n cwmpasu'r gwaith o helpu ein holl bobl ifanc i fod yn: ddysgwyr uchelgeisiol a galluog; cyfranwyr llawn menter a chreadigrwydd, dinasyddion gwybodus gyda gwerthoedd moesegol, ac yn unigolion iach a hyderus.
3. Y dylai addysg pobl ifanc adeiladu'n gynyddol at y pedwar diben hynny yn ystod eu hamser mewn addysg ysgol.
4. Bod athrawon ac ysgolion gyda mwy o ryddid i wireddu'r dibenion hynny mewn ffordd all gwrdd ag anghenion a phriodoleddau'r bobl ifanc a'u cymunedau.

4.3. Mae'r ffordd yr ydym wedi mynd ati i ddiwygio wedi cael ei integreiddio ym mhob agwedd o'n gwaith o'r cychwyn cyntaf. Ni all un elfen o'r daith ddiwygio fodoli ar ei phen ei hun. Fe'i gwelir o safbwynt gofynion y dysgwyr a gwaelodlin ysgolion a chlystyrau unigol i gyflawni newid yn unol â'r disgwyliadau a gytunwyd arnynt.

4.4. Fel rhan o'r gefnogaeth i ysgolion ar gyfer y *Cwricwlwm Cymru* newydd, mae GwE / ALI wedi gweithio gyda chonsortia rhanbarthol eraill i ddatblygu cynnig dysgu proffesiynol cenedlaethol sy'n integreiddio holl agweddau'r diwygiad ehangach yn cynnwys Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu, Y Gymraeg (y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050) a'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol Gweddnewidiol.

4.5. Nod y cynnig gwelliant a chefnogi i ysgolion yw cefnogi'r holl ymarferwyr, gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar Uwch Arweinwyr gyda'r themâu canlynol:

1. Arwain Newid,
2. Arweinyddiaeth ar gyfer y cwricwlwm newydd,

3. Datblygu gweledigaeth ar y cyd,
4. Cynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm,
5. Arwain addysgeg (y dull a'r arfer o ddysgu),
6. Dysgu proffesiynol.

4.6. Mae'r drefn gynlluniedig o addysgu a hyfforddiant proffesiynol sydd ar gael i ysgolion wedi'i hamlinellu yn **Atodiad 2**. Mae'r sesiynau hyn ar draws y rhanbarth yn seiliedig ar glystyrau ac yn galluogi grwpiau llai o ysgolion cynradd a'u hysgol uwchradd leol i drafod y *Cwricwlwm Cymru* newydd ar hyd y continwwm dysgu 3-16.

4.7. Cynhaliwyd cyfres o weithdai ymgynghorol yn Ebrill 2021 i wrando ar adborth gan Benaethiaid ar y cynnig dysgu proffesiynol a'r ffordd orau i ail-gysylltu. Mynychodd dros 300 o benaethiaid yr ymgynghoriadau yn rhanbarthol, gyda dros 50 o Sir Ddinbych yn mynychu. Roedd yr adborth yn cynnwys:

1. Bod penaeithiaid sectorau cynradd ac uwchradd yn cydnabod y pwysigrwydd o barhau i gydweithio ar draws yr holl sectorau i gefnogi continwwm 3-16;
2. Bod yr holl arweinwyr yn cydnabod y pwysigrwydd o gynnal momentwm dysgu proffesiynol ond yn cydnabod yr her o ran amseriad wrth ystyried y pwysau a'r heriau presennol;
3. Bod arweinwyr yn awyddus i weithio gyda GwE ac i ddefnyddio mewnbwn gan arbenigwyr allanol pan yn briodol;
4. Bod arweinwyr yn cydnabod bod yr angen i fod yn hyblyg wrth ymrwymo â'r cynnig dysgu proffesiynol yn allweddol i sicrhau ymrwymiad effeithiol.

4.8. Fel rhan o'r gwaith paratoi, mae'r holl Gynghorwyr Cefnogi Gwelliant wedi trefnu sesiynau lle mae cyfle i ysgolion o fewn clwstwr i gydweithio â'i gilydd i gynllunio'n strategol o ran y gwaith o weithredu'r cwricwlwm. Mae gweithgareddau i gefnogi paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd ar lefel ysgol a chlwstwr wedi cael eu nodi o fewn Cynlluniau Datblygu Ysgolion.

4.9. Mae enghreifftiau o weithgareddau wedi'u cynllunio i baratoi ymhellach ar gyfer y cwricwlwm newydd yn ysgolion Sir Ddinbych yn cynnwys y rheiny wedi'u rhestru isod ac yn ffurfio rhan o Gwricwlwm Cymru, Y Daith i 2022 (**Atodiad 3**)

1. adnabod cyfleoedd pellach ar gyfer uwch arweinwyr i weithio ar ddatblygu gweledigaeth ar y cyd;
2. cydweithio ar draws ysgolion i ddatblygu dulliau cyffredin o addysgu a dysgu a rhannu iaith gyffredin;
3. adnabod cyfleoedd i athrawon gydweithio i ddadansoddi a chydweithio o fewn Maes Dysgu a Phrofiad penodol.

4.10. Yn ychwanegol i'r cynnig Dysgu Proffesiynol mae cefnogaeth ychwanegol gan GwE ar gael i ysgolion wrth iddyn nhw baratoi ar gyfer *Cwricwlwm Cymru*. Bydd mynediad i'r gefnogaeth ar lefel clwstwr ac ysgol unigol, yn cynnwys cefnogaeth bwrpasol wedi'i deilwra pan fo angen hynny. Mae ysgolion Sir Ddinbych ar wahanol gyfnodau o'u taith ac mae ein cynnig cefnogi yn bwrpasol i'w anghenion.

4.11. Mae cefnogaeth bellach ar gael i ysgolion hefyd yn cynnwys cyfres o 'Bapurau Gwyntyllu' wedi eu hysgrifennu gan dîm GwE fel rhan o'r sesiynau diwygio gyda'r Athro Graham Donaldson. Mae'r papurau hyn, sy'n mynd i'r afael ag agweddau allweddol o'r daith i ddiwygio'r cwricwlwm yn cynnwys arweinyddiaeth, gweledigaeth, addysgeg, asesiad a dyluniad y cwricwlwm, wedi cael eu rhannu a'u perffeithio trwy ymgynghoriad â phartneriaeth ehangach gydag Awdurdodau Lleol, Estyn a Phrifysgol Bangor.

4.12. Agwedd allweddol wrth symud ymlaen fydd cefnogi ysgolion i ddatblygu rhwydweithiau ar draws pob un o'r chwe *Maes Dysgu a Phrofiad*.

4.13. Wrth gefnogi ysgolion yn eu parodrwydd i weithredu'r cwricwlwm ym Medi 2022, mae GwE yn gweithio gydag ysgolion a phartneriaid ehangach i ddatblygu ystod eang o ddangosyddion ansoddol a fydd yn galluogi ysgolion i adlewyrchu ar sut y maen nhw'n gweithredu pedwar diben y cwricwlwm newydd.

4.14. Mae gan ysgolion fynediad i gyfres o gerrig milltir o fewn y system rheoli gwybodaeth sy'n eu galluogi nhw i adlewyrchu ar eu cynnydd. Cyn y cyfnod clo cyntaf roedd dros 90% o ysgolion wedi nodi eu bod nhw un ai yn rhannol ar y trywydd iawn neu gyda gwell dealltwriaeth a gwybodaeth o'r fframwaith cwricwlwm newydd. Mae bron pob ysgol wedi mynegi eu bod nhw'n rhannol ar y trywydd iawn neu wedi gwella o ran ymrwymiad a chyfranogiad mewn gwaith clwstwr i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r maes hwn o waith yn cyfrannu at wneud sir Ddinbych yn ardal lle mae pobl ifanc eisiau byw a gweithio a gyda'r sgiliau i wneud hynny. Bydd y Cwricwlwm Cymru newydd hefyd yn cyfrannu at wneud Sir Ddinbych yn rywle lle gall pobl ifanc flodeuo a chael y dechrau gorau mewn bywyd.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd costau yn cael eu cwrdd o gyllidebau dirprwyedig sydd eisoes yn bodoli i ysgolion, cyllideb Addysg a hefyd cyllid grant sydd wedi'i wneud ar gael gan Lywodraeth Cymru. Mae GwE fel Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion yn arwain ar y datblygiad ac yn cefnogi ysgolion gyda gweithredu'r Cwricwlwm Cymru newydd yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Donaldson 'Dyfodol Llwyddiannus'

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Amh.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Dim gofyniad i ymgynghori â Chraffu ond mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal nifer o [ymgyngoriadau](#) mewn perthynas â'r maes yma o waith.

9. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae pwerau Craffu mewn perthynas â'r materion yn yr adroddiad hwn yn unol ag:

- Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000;
- Adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor